Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Glastir



## Grantiau Bach Glastir

### Datganiad o Ddiddordeb
### Canllawiau - Sut i Lenwi





Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru
2014-2020

# Datganiad Diddordeb Grantiau Bach Glastir – Canllaw Sut i Lenwi

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn mynd â chi gam wrth gam trwy'r broses o lenwi'ch Datganiad Diddordeb Grantiau Bach Glastir.

I'ch helpu, mae dolenni y gallwch glicio arnyn nhw ar y dudalen gynnwys isod ac mae dolenni 'Yn ôl i'r Cynnwys' hefyd wrth droed pob tudalen ichi allu symud yn rhwydd o un rhan i'r llall.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllaw yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â gofynion Cynllun Iaith Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


## Cynnwys


Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Tudalen Hafan ..... 5
Grantiau Bach Glastir – Tudalen Hafan ..... 6
Y Dudalen Prosiectau ..... 7
  Creu Prosiect Newydd – Dechrau Arni ..... 8
Tudalen Creu Prosiect ..... 9
  Tabl Sgôr Prosiectau ..... 10
  Hidlo Parseli Tir ac Ewch i Dudalen ..... 10
  Gweld Map – sgrin y Map Rhyngweithiol ..... 11
  Ychwanegu Cae ..... 11
Creu Prosiect – Dewis Prosiect ..... 13
  Caeau a Gwaith Cyfalaf sydd ddim ar gael (N/A) ..... 13
  Dewis eich Prosiect ..... 14
Map Prosiectau Grantiau Bach Glastir ..... 15
  Map y Prosiect – Sgrin Gyffredinol ..... 15
  Gweld Opsiynau a Haenau ..... 16
    Golwg ar yr haenau ..... 17
Braslunio'ch Prif Waith Cyfalaf ..... 20
  Fideo YouTube ..... 20
  Help i fraslunio'ch Prif Waith Cyfalaf ..... 20
Defnyddio'r Teclyn Mapio ..... 21
  Tynnu Llinell Perth/Gwrych – Prif Waith Cyfalaf ..... 21
    Teclyn Tynnu Amlinell y Ffin ..... 22
    Teclyn tynnu amlinell – Prosiect Prif Waith Cyfalaf Perthi/Gwrychoedd ..... 23
  Tynnu amlinell Prosiect Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni ..... 25
    Offer Tynnu Amlinell – Prosiect Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni ..... 26
  Dangos Lleoliad Prosiect Prif Waith Cyfalaf ..... 29
  Prosiect yn gorgyffwrdd â'r haenen Gyfyngiadau ..... 32
  Prosiect yn gorgyffwrdd â'r haenen Ymgynghori/Ganiatâd ..... 32
  Canslo'r Llinell neu'r Amlinell rydych yn ei Thynnu ..... 32
  Gorffen Braslunio ..... 33
Manylion y Prosiect ..... 34
  Manylion y prosiect – trosolwg ..... 34

Crynodeb y Prosiect ..... 36
Prosiect Prif Waith Cyfalaf ..... 37
Prif Waith Cyfalaf ..... 37
Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol ..... 37
Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol ..... 38
Prosiect Prif Waith Cyfalaf – Coed a Llwyni ..... 39
Prif Waith Cyfalaf ..... 39
Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol ..... 39
Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol ..... 41
Gwallau ..... 42
Safio a diweddaru'ch prosiect ..... 42
Dileu'ch Prosiect ..... 42
Yn ôl i'r dudalen Prosiectau ..... 42
Yn barod i gyflwyno'ch Prosiect? ..... 42
Adolygu a newid prosiectau drafft ..... 43
Cyflwyno'ch Prosiect ..... 44
Ar ôl ei gyflwyno'n llwyddiannus ..... 45

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Tudalen Hafan

Logiwch i mewn i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – rhowch eich ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chlicio ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004 neu e-bostiwch RPWOnline@Wales.gsi.gov.uk

Ar ôl ichi logio i mewn, fe welwch dudalen 'Hafan' eich cyfrif RPW Ar-lein.

## Grantiau Bach Glastir – Tudalen Hafan

I fynd i Ddatganiad Diddordeb Grantiau Bach Glastir, cliciwch ar y tab ‘Fy Nglastir i’ a dewiswch ‘Grantiau Bach’ ar sgrin hafan RPW Ar-lein, fel yr isod.





Aiff hyn â chi i’r dudalen ‘Prosiectau’


I newid yr iaith unrhyw bryd, cliciwch y botwm 


ar gornel dde uchaf y bar gwybodaeth RPW Ar-lein. Bydd yn gadael ichi ddewis yr iaith y caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddangos ynddi.

## Y Dudalen Prosiectau

Ar ôl ichi ddewis ‘Grantiau Bach’, fe welwch y dudalen ‘Prosiectau’. Bydd y dudalen hon yn dangos ichi wybodaeth am eich Datganiad Diddordeb Grantiau Bach Glastir.







## Creu Prosiect Newydd – Dechrau Arni

Ar ôl ichi ddarllen y Canllawiau, i ddechrau llenwi'ch Datganiad Diddordeb, cliciwch ar y botwm Creu Prosiect Newydd.





Os ydych eisoes wedi creu neu gyflwyno prosiect, fe welwch chi y prosiectau hynny ar y rhestr yn y dudalen hon (Gweler y bennod Adolygu a newid prosiectau drafft).

## Tudalen Creu Prosiect

Mae’r sgrin hon yn dangos manylion yr holl gaeau y mae Llywodraeth Cymru’n gwybod amdanyn nhw adeg Datgan eich Diddordeb.


Cyn dewis eich Prosiect Gwaith Cyfalaf, gofalwch eich bod wedi darllen y dogfennau Canllaw Technegol Grantiau Bach Glastir. Mae’r canllaw yn rhoi’r cyfarwyddiadau ymarferol ar gyfer pob gwaith cyfalaf a darlun cyffredinol o’r hyn sydd ar gael.

Mae sgôr wedi’i rhoi i bob un o’ch caeau ar gyfer cynnal eitemau Gwaith Cyfalaf gwahanol, gan ddefnyddio haenau’r amcanion amgylcheddol.  Dangosir y sgôr ar ffurf tabl.



## Tabl Sgôr Prosiectau


Bydd hwn yn dangos y sgôr sydd ar gael ar gyfer pob Prosiect Gwaith Cyfalaf.




Gweler y bennod Dewis Prosiect yn y ddogfen hon i gael disgrifiad manylach ynghylch sut i ddewis sgôr.


## Hidlo Parseli Tir ac Ewch i Dudalen

Defnyddiwch hwn i gael hyd i gaeau penodol.



### Gweld Map – sgrin y Map Rhyngweithiol

Cliciwch ar y parsel tir i weld 'Map Rhyngweithiol' RPW Ar-lein o'r caeau rydych wedi'u dewis.




**Pwysig:** Nid hwn yw Map Prosiect Grantiau Bach Glastir (a ddisgrifir nes ymlaen yn y canllaw hwn) a wnaiff e ddim dangos unrhyw wybodaeth a welir ar Fap y Prosiect.

### Ychwanegu Cae

I ychwanegu cae sydd wedi'i gofrestru gyda System Adnabod Caeau Llywodraeth Cymru ac sydd o dan eich rheolaeth chi adeg cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb, cliciwch ar y botwm Ychwanegu Cae .

## Datganiad Diddordeb Grantiau Bach Glastir - Creu Prosiect

Ychwanegu Cae

Mae'r tabl isod yn dangos y sgôr sydd wedi'i roi i'ch caeau ar gyfer pob math o Brosiectau Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir. I greu prosiect, cliciwch ar y sgôr.

Cuddio Help

The highest available score on your holding for each Main Capital Works Project is circled.(w) Fel arfer, mae prosiectau sydd â sgôr uwch yn fwy tebygol o fodloni'r meini prawf.(w)

Fe welwch N/A os nad oes Prosiect Gwaith Cyfalaf ar gael ar gyfer y cae. Cliciwch ar y botwm N/A am esboniad pam nad ydych yn cael cynnal prosiect ar y cae. Mae caeau nad ydyn nhw ar gael i gynnal unrhyw Brosiectau Gwaith Cyfalaf arnyn nhw yn ymddangos ar waelod y rhestr.

Defnyddiwch y botwm 'Ychwanegu Cae' i ychwanegu tir, cyn belled â'i fod wedi'i gofrestru fel cae.


Cliciwch ar Gyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae neu Enw'r Cae i weld map o'r cae.


I'ch helpu i Ddatgan Diddordeb yng Ngrantiau Bach Glastir, darllenwch y Canllaw Sut i Lenwi

Hidlo parseli tir | e.g. SH1234 1248 / 'Lower Field' / 27 | Hidlo | Ailosod | Trefnu sgoriau yn ôl | Dewiswch os gwelwch yn dda | Trefnu | Ailosod

| Cyfeirnod y Ddalen Rhif y Cae | Coed - coed hirgyff | Coed a llwyni - trawsblannu | Coed a llwyni - coed chwip | Coed Ffrwythau Gyda Phostyn a Giard | Plannu llafnau | Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau | Plygu perth/gwrych | Adfer pwll | Perthi ar gyfer pryfed peillio | Adfer waliau cerrig sych |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 5 | 5 | 17 | 5 | 3 |
| | 6 | 6 | 6 | 6 | 10 | 11 | 11 | 11 | 10 | 10 |
| | 3 | 3 | 3 | 10 | 3 | 10 | 10 | 11 | 11 | 5 |
| | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 5 | 5 | N/A | 5 | 3 |
| | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | N/A | 3 | 2 |
| | 24 | 24 | 24 | 24 | 28 | 32 | 32 | N/A | 31 | 34 |
| | 23 | 23 | 23 | 23 | 27 | 30 | 30 | N/A | 29 | 33 |
| | 14 | 14 | 14 | 14 | 18 | 19 | 19 | N/A | 18 | 18 |
| | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | N/A | 3 | 2 |








**Pwysig:** Bydd caeau sydd wedi'u hychwanegu'n llwyddiannus yn ymddangos ar y sgrin Creu Prosiect yn nhrefn Cyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae, a chyn belled â'i fod ar gael, gallwch nawr greu prosiect ar gyfer y cae hwn. (Gweler y bennod Dewis Prosiect)

Bydd caeau nad ydynt ar gael (N/A) i'w gweld ar waelod y rhestr.

## Creu Prosiect – Dewis Prosiect


Bydd pob prosiect sydd ar gael wedi cael sgôr a bydd hwnnw wedi'i nodi wrth y cae rydych am gynnal y prosiect arno.





| Cyfeirnod y Ddalen Rhif y Cae | Coed - coed hirgyff | Coed a llwyni - trawsblannu | Coed a llwyni - coed chwip | Coed Ffrwythau Gyda Phostyn a Giard | Plannu llafnau | Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau | Plygu perth/gwrych | Adfer pwll | Perthi ar gyfer pryfed peillio | Adfer waliau cerrig sych |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 5 | 5 | 17 | 5 | 3 |
| | 6 | 6 | 6 | 6 | 10 | 11 | 11 | 11 | 10 | 10 |
| | 3 | 3 | 3 | 10 | 3 | 10 | 10 | 11 | 11 | 5 |
| | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 5 | 5 | N/A | 5 | 3 |
| | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | N/A | 3 | 2 |
| | 24 | 24 | 24 | 24 | 28 | 32 | 32 | N/A | 31 | 34 |
| | 23 | 23 | 23 | 23 | 27 | 30 | 30 | N/A | 29 | 33 |
| | 14 | 14 | 14 | 14 | 18 | 19 | 19 | N/A | 18 | 18 |
| | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | N/A | 3 | 2 |
| | 2 | 2 | 2 | | | | | | | 2 |

### Caeau a Gwaith Cyfalaf sydd ddim ar gael (N/A)

Fe welwch y llythrennau N/A os nad yw Prosiect Gwaith Cyfalaf ar gael ar gyfer y cae. Mae'r caeau nad ydyn nhw ar gael ar gyfer unrhyw Brosiect Gwaith Cyfalaf yn ymddangos ar y dudalen olaf ar waelod eich rhestr.





Fe welwch restr o Dir Anghymwys ym mhennod B – Pwy sy'n Gymwys [Grantiau Bach Glastir - Llyfryn Rheolau Cyffredinol]

## Dewis eich Prosiect

Ar ôl dewis pa gae a pha Brosiect Gwaith Cyfalaf rydych am weithio arnyn nhw, cliciwch ar fotwm y sgôr.




| Cyfeirnod y Ddalen Rhif y Cae | Coed - coed hirgyff | Coed a llwyni - trawsblannu | Coed a llwyni - coed chwip | Coed Ffrwythau Gyda Phostyn a Giard | Plannu llafnau | Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau | Plygu perth/gwrych | Adfer pwll | Perthi ar gyfer pryfed peillio | Adfer waliau cerrig sych |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO1246 8073 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 5 | 5 | 17 | 5 | 3 |
| SO1246 9693 | 6 | 6 | 6 | 6 | 10 | 11 | 11 | 11 | 10 | 10 |
| SO1446 0160 | 3 | 3 | 3 | 10 | 3 | 10 | 10 | 11 | 11 | 5 |
| SO1246 7684 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 5 | 5 | N/A | 5 | 3 |
| SO1246 9468 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | N/A | 3 | 2 |


Cliciwch ar y sgôr ac fe welwch Fap eich Prosiectau Grantiau Bach Glastir, yn barod ichi nodi'ch Prosiect Gwaith Cyfalaf.

# Map Prosiectau Grantiau Bach Glastir

## Map y Prosiect – Sgrin Gyffredinol


Ar ôl clicio ar y sgôr, agorir Map eich Prosiect. Bydd yn dangos y cae rydych wedi'i ddewis a gwybodaeth am y cae o safbwynt Grantiau Bach Glastir.

Ar y cae hwnnw y byddwch chi'n braslunio'ch prosiect Grantiau Bach Glastir.





## Gweld Opsiynau a Haenau

I ddangos a chuddio’r haenau, daliwch y cyrchwr uwchben y blwch ‘Gweld Opsiynau’. Gallwch doglo’r haenau rydych am eu dangos i’ch helpu.





**Golwg ar yr haenau**

| **Haen ar y sgrin** | Disgrifiad |
|---|---|
| Llun o'r awyr | Mae hwn yn dangos ffotograff o'r awyr o'r cae rydych wedi'i ddewis a'r tir o gwmpas. |
| Haen y map | Mae hwn yn dangos haenen y rif fap.  Caiff ei ddangos yn eich crynodeb. |
| Nodweddion Parhaol – â llinellau croes porffor | Mae hyn yn dangos y nodweddion parhaol ar y cae rydych wedi'i ddewis a'r caeau o gwmpas o dan eich CRN. Gallwch glicio ar y nodwedd Barhaol i ddangos pa fath o nodwedd ydyw. |
| Labeli Caeau | Yn dangos cyfeirnod y ddalen a rhif y cae.<br><br> |
| Cyfyngiadau – Coch | Mae hwn yn dangos lle na chewch gynnal Prif Waith Cyfalaf.<br><br>Bydd Opsiynau Rheoli Glastir Sylfaenol nad ydynt yn gymwys ar gyfer Prif Waith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir yn ymddangos yn goch. Bydd prosiectau Grantiau Bach Glastir sydd eisoes wedi'u cyflwyno hefyd yn ymddangos yn goch ar Fap eich Prosiect.<br><br><br><br> |




Yn ôl i'r Cynnwys

| | |
|---|---|
| Testun ymgynghori neu Ganiatâd – Oren | Mae hwn yn dangos lle byddai angen ymgynghori neu ganiatâd cyn cynnal y Prif Waith Cyfalaf.<br><br><br><br> |



Yn ôl i'r Cynnwys

<table>
<tr>
<td>Glastir Sylfaenol – Melyn golau tryloyw</td>
<td>Mae hwn yn dangos lle mae Opsiwn Rheoli Glastir Sylfaenol yn cael ei gynnal ond nid yw’n Cyfyngu ar y Prif Waith Cyfalaf.  Rhaid peidio â chynnal Prosiect Grantiau Bach Glastir ar dir lle rydych eisoes yn cynnal Opsiynau Rheoli o dan gontract Glastir Sylfaenol.



</td>
</tr>
<tr>
<td>Grantiau Bach Glastir – Prosiectau Drafft – Du.</td>
<td>Mae hwn yn dangos y prosiectau Grantiau Bach Glastir sydd ar ffurf ddrafft, er mwyn ichi allu rhoi cynnig ar syniadau gwahanol cyn cyflwyno cynnig terfynol.



</td>
</tr>
</table>


# Braslunio'ch Prif Waith Cyfalaf

## Fideo YouTube

Mae gennym fideo YouTube sy'n dangos ichi sut i ddefnyddio Map y Prosiect a'r teclyn braslunio.

## Help i fraslunio'ch Prif Waith Cyfalaf

I weld cyngor defnyddiol am y teclyn braslunio a'r teclyn gwybodaeth, cliciwch ar y botwm help.



## Defnyddio'r Teclyn Mapio

Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad bras o bob teclyn.  Am help manylach i ddefnyddio'r teclyn mapio, darllenwch y bennod Help i Fraslunio'ch Prif Waith Cyfalaf.

### Tynnu Llinell Perth/Gwrych – Prif Waith Cyfalaf

Defnyddiwch y teclyn tynnu llinell ar gyfer Prif Waith Cyfalaf Perth/Gwrych – 900, 901, 902.


Yr offer braslunio a ddefnyddiwyd – Tynnu amlinell y ffin, Tynnu amlinell
Mesur – Metrau

Mae'r tabl hwn yn dangos y meintiau mwyaf a lleiaf a ganiateir ar gyfer gwaith cyfalaf perthi.

| Gwaith Cyfalaf | Plannu Perth/ Gwrych Newydd | Bondocio Perth/Gwrych | Plygu Perth/Gwrych |
|---|---|---|---|
| Nifer | 900 | 901 | 902 |
| Lleiaf | 10m | 10m | 10m |
| Mwyaf | Terfyn gwerth y Prosiect cyfan* | 200m | Terfyn gwerth y Prosiect cyfan* |

*Bydd yr hyd mwyaf a ganiateir ar gyfer y prosiectau hyn yn dibynnu ar werth y prosiect cyfan.  Gweler y bennod Manylion y Prosiect.

Fe welwch isod enghraifft o brosiect ar gyfer Prif Waith Cyfalaf Perthi.




**Pwysig:** Rhaid codi ffens bob ochr i'r holl berthi oni bai bod y berth yn ffinio â heol. Os ydych chi'n bwriadu cynnal prosiect perthi sydd ar ffin, rhaid cael caniatâd eich cymydog i godi ffens sy'n gysylltiedig â gwaith caled sydd ar dir y cymydog


### Teclyn Tynnu Amlinell y Ffin


Mae’r teclyn hwn yn gadael ichi dynnu llinell ar hyd ffin cae ar gyfer Gwaith Cyfalaf Perthi. Bydd yn dilyn y ffin yn awtomatig wrth ichi ddal y cyrchwr ar ffin y cae. Bydd yn dangos y llwybr byrraf rhwng y pwynt cychwyn a’r pwynt gorffen.




Os bydd y llinell rydych yn ei thynnu yn fyrrach na’r lleiaf a ganiateir neu’n hirach na’r mwyaf a ganiateir ar gyfer prif waith cyfalaf, fel sydd yn y tablau uchod, fe welwch neges. Yna bydd yn rhaid ichi newid y prosiect yn unol â’r gofyn.

Ar ôl ichi glicio ‘Gorffen Braslun’, bydd Maint y Braslun yn dangos yr hyd cyfan.





Cliciwch ar y botwm Close i gau’r neges.


**Teclyn tynnu amlinell – Prosiect Prif Waith Cyfalaf Perthi/Gwrychoedd**

Mae’r teclyn hwn yn gadael ichi dynnu nodwedd linellol nad yw’n dilyn ffin, fel perth/gwrych newydd.





Bydd y teclyn Tynnu Amlinell yn cwtogi’r berth os bydd hi’n mynd dros ffin y cae sydd wedi’i ddewis.







Os bydd y llinell rydych yn ei thynnu yn fyrrach na'r lleiaf a ganiateir neu'n hirach na'r mwyaf a ganiateir ar gyfer prif waith cyfalaf, fel sydd yn y tablau uchod, fe welwch neges.  Yna bydd yn rhaid ichi newid y prosiect yn unol â'r gofyn.

Ar ôl ichi glicio 'Gorffen Braslun', bydd 'Maint y Braslun' yn dangos yr hyd cyfan.




Cliciwch ar y botwm Close i gau'r neges

**Tynnu amlinell Prosiect Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni**
Mae Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni yn cael ei fesur mewn arwynebedd (m2) – 610, 611, 612, 645, 646.


Yr offer braslunio a ddefnyddiwyd – Tynnu Amlinell
Mesur – m2

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer fwyaf a lleiaf o goed a llwyni a ganiateir yn y tir dan sylw. **Ni chaniateir i arwynebedd braslun Grantiau Bach Glastir fod yn fwy na 2500m2** (0.25ha).

| **Gwaith Cyfalaf** | Coed hirgyff | Coed a Llwyni – trawsblannu | Coed a Llwyni Chwip | M25 & MM111 Coed perllan a giardiau a physt | Plannu Llafnau [heb ffensio] |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 610 | 611 | 612 | 645 | 646 |
| Nifer lleiaf o goed a llwyni | 1 y prosiect | 100/ha* | 1 y prosiect | 1 y prosiect | 1 y prosiect |
| Nifer mwyaf o goed a llwyni | 100/ha* | 2400/ha* | 100/ha* | 100/ha* | 100/ha* |


*Dangosir y tir dan sylw mewn metrau sgwâr (m2). Cyfrifir nifer y coed fydd wedi'u plannu o fewn yr amlinell a dynnir, yn unol â'r gymhareb uchod.

Fe welwch isod enghraifft o brosiect ar gyfer Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni.





**Offer Tynnu Amlinell – Prosiect Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni**

Mae'r erfyn hwn yn gadael ichi dynnu amlinell lleoliad eich coed a llwyni.





**Cwtogi** – Bydd y teclyn Tynnu Amlinell yn 'cwtogi' y llinell yn ôl at y ffin os bydd y llinell yn ymestyn dros ffin y cae rydych wedi'i ddewis.







**Amlinellau sy'n gorgyffwrdd** – Mae'r teclyn 'Tynnu Amlinell' yn gadael ichi dynnu amlinell dros amlinellau rydych eisoes wedi'u tynnu. Bydd wedyn yn cyfuno'r siapiau i greu amlinell un prosiect ac arwynebedd honno fydd 'Maint y Braslun'.







Os bydd yr arwynebedd yn llai na'r lleiaf a ganiateir neu'n fwy na'r mwyaf a ganiateir ar gyfer prif waith cyfalaf, fel ag a ddangosir yn y tablau uchod, fe welwch neges. Yna bydd yn rhaid ichi newid y prosiect yn unol â'r gofyn.

Ar ôl ichi glicio 'Gorffen Braslun', bydd 'Maint y Braslun' yn dangos yr arwynebedd.



Cliciwch ar y botwm Close i gau'r neges


**Dangos Lleoliad Prosiect Prif Waith Cyfalaf**
Mae'r teclyn hwn yn gadael ichi ddangos trwy osod 'pin' ble rydych chi am gynnal y prif waith cyfalaf.

Yn yr enghreifftiau hyn, rydym wedi dewis gwaith cyfalaf Cafnau Dŵr. Am help manylach i ddefnyddio'r teclyn mapio, darllenwch yr adran Help i Fraslunio'ch Prif Waith Cyfalaf .

Teclyn Braslunio wedi'i ddefnyddio – Lleoliad y Prosiect
Mesur – gosod pin


Dangosir uchafswm a lleiafswm yr eitemau gwaith cyfalaf perthnasol ar y sgrin Manylion y Prosiect.

**Teclyn Lleoliad y Prosiect**
Ar ôl ichi ddewis eich prif waith cyfalaf, bydd y map ar gyfer y parsel hwnnw yn cael ei ddangos ar y sgrin.




Bydd y cafnau dŵr yn cael eu gosod ar adeiladau.

I farcio lleoliad lle rydych am gynnal eich prosiect, cliciwch ar y botwm Lleoliad y Prosiect a bydd smotyn glas yn ymddangos ar y map (gweler isod).



I osod pin ar y lleoliad hwnnw, cliciwch botwm chwith eich llygoden a bydd y smotyn yn troi’n porffor.




Gallwch osod mwy nag un pin i farcio lleoliadau gwahanol.

Wedi ichi orffen nodi’r prosiect dan sylw, cliciwch y botwm ‘Gorffen Braslun’.



Yn ôl i’r Cynnwys





Bydd angen ichi nodi hyd y cafnau dŵr (ac eitemau eraill o waith cyfalaf y prosiect) o fewn Manylion y Prosiect.

**Pwysig:** Wrth symud pyllau dipio a chorlannau defaid a symud corlannau defaid fel gwaith cyfalaf, pin lleoliad y prosiect yw lleoliad newydd y gwaith cyfalaf.

**Prosiect yn gorgyffwrdd â'r haenen Gyfyngiadau**

Os ydy'ch Prif Waith Cyfalaf yn gorgyffwrdd â'r haenen gyfyngiadau (coch), fe welwch neges gwall ar Fap y Prosiect sy'n esbonio'r rheswm pam na chewch chi gynnal y prosiect ar y tir hwn.  Rhowch gynnig arall arni heb orgyffwrdd â'r haenen gyfyngiadau.


Gweler enghraifft isod:




**Prosiect yn gorgyffwrdd â'r haenen Ymgynghori/Ganiatâd**


Os ydy'ch Prif Waith Cyfalaf yn gorgyffwrdd â'r haenen ymgynghori/ganiatâd (oren), fe welwch neges wybodaeth ar Fap y Prosiect sy'n esbonio'r rheswm pam mae angen ymgynghori neu gael caniatâd i gynnal y prosiect yn y rhan honno o'r cae.

Gweler enghraifft isod:




Gallwch ddewis parhau â'r prosiect a gwnaiff Llywodraeth Cymru ymgynghori neu ofyn am ganiatâd ar eich rhan.  Gweler y bennod Ymgynghori a Chaniatâd yn Grantiau Bach Glastir - Llyfryn Rheolau Cyffredinol am fwy o fanylion.

**Canslo'r Llinell neu'r Amlinell rydych yn ei Thynnu**


Os nad ydych am barhau â thynnu llinell neu amlinell am unrhyw reswm, cliciwch ar y botwm 

.

Byddwn yn gofyn ichi a ydych yn siŵr eich bod am ganslo. Yna byddwch yn mynd yn ôl i'r dudalen Prosiectau os nad ydych wedi braslunio unrhyw ran o'ch prosiect neu yn ôl i dudalen Manylion y Prosiect os ydych yn newid prosiect drafft.

**Gorffen Braslunio**

Ar ôl gorffen braslunio'ch prosiect, cliciwch ar y botwm





. Bydd Map y Prosiect yn cyfri manylion eich prosiect ac yn dangos unrhyw negeseuon gwall neu wybodaeth.

Wrth glicio ar y botwm 'Gorffen Braslun', cewch eich cymryd i dudalen Manylion y Prosiect.

## Manylion y Prosiect

Ar ôl tynnu llinell neu amlinell eich prosiect, bydd angen ichi nodi manylion y prosiect.

### Manylion y prosiect – trosolwg



Dyma'r Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol sy'n ategu'r Prif Waith Cyfalaf

## Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol

| | Disgrifiad | Nifer | | Isafswm | Uchafswm | Cyfradd Dalu | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaid ichi ddewis o leiaf un o'r 2 opsiwn canlynol | | | | | | | |
| Bydd hyd y ffens a nodir isod yn gorfod bod yn ddigon hir i amddyffyn y Berth/Gwrych cyfan ym Mhrosiect y Prif Waith Cyfalaf. Dylid gosod ffens bob ochr i'r berth oni bai bod y berth yn ffinio â'r ffordd. | | | | | | | |
| 594 | Ffens postyn a weiren | | m | | | £2.77 | £0.00 |
| 595 | Ffens postyn a weiar gyda netin stoc | | m | | | £3.48 | £0.00 |

Dyma'r Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol sy'n ategu'r Prif Waith Cyfalaf

## Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol

| | Disgrifiad | Nifer | | Cyfradd Dalu | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|
| 514 | Camfa ysgol | | | £107.00 | £0.00 |
| 516 | Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren | | | £151.44 | £0.00 |
| 517 | Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | | | £181.00 | £0.00 |
| 519 | Camfeydd pren | | | £60.00 | £0.00 |
| 533 | Gât mochyn daear | | | £67.00 | £0.00 |
| 563 | Pibelli cyflenwi dŵr | | m | £0.52 | £0.00 |
| 573 | Gât ddŵr | | | £100.00 | £0.00 |
| 574 | Cafnau dŵr | | | £118.00 | £0.00 |
| 596 | Ffensys cwningod | | m | £5.40 | £0.00 |
| 599 | Gatiau caeau - pren caled | | | £236.00 | £0.00 |
| 600 | Gatiau caeau - pren meddal | | | £150.00 | £0.00 |
| Pwysig: Y gyfradd dalu ar gyfer clirio Mieri a Phrysgwydd yw £0.0185 y m2 ac nid £0.02 y m2. Peidiwch â nodi arwynebedd sy'n fwy nag arwynebedd gwirioneddol y Prif Waith Cyfalaf | | | | | |
| 905 | Rheoli mieri / prysg - chwistrellydd cefn | | m2 | £0.02 | £0.00 |

Dileu Prosiect | Rhestr Prosiectau | Safio | Ymlaen i gyflwyno

Dyma'r botymau rheoli ac i fynd o dudalen i dudalen.

**Crynodeb y Prosiect**
Bydd Crynodeb y Prosiect yn dangos manylion y prosiect a chaiff ei ddiweddaru bob tro y byddwch yn clicio ar y botwm ‘Safio’.

Bydd y blwch helpu glas yn dangos gwybodaeth bwysig o dudalen Manylion y Prosiect.  Gallwch ddangos neu guddio’r testun hwn trwy glicio ar y botwm Dangos Help / Cuddio Help.




**Enw’r Prosiect:** Rhaid rhoi enw ar gyfer y prosiect; heb enw, fyddwch chi ddim yn cael cyflwyno’r prosiect.


**Cyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae:** Dyma’r cae lle byddwch yn cynnal eich prosiect.

**Enw’r Cae:** Os oes gennych enw i’r cae ar eich Ffurflen Cae Sengl (SAF), bydd yn cael ei ddangos yma.

**Sgôr y Prosiect:** Bydd hwn yn dangos sgôr y prosiect y gwnaethoch ei ddewis wrth greu’r prosiect.

**Cyfanswm Gwerth y Prosiect:** Mae hwn yn cyfri gwerth pob Gwaith Cyfalaf (Prif, Gorfodol ac Opsiynol) rydych wedi’i ddewis ar gyfer y prosiect hwn.

**Maint y Braslun:** Dyma fesuriadau’r prosiect rydych wedi’i braslunio ar Fap y Prosiect.  Dangosir y mesuriadau at y rhif cyfan agosaf.




**Maint Gwirioneddol:** Bydd y blwch hwn yn llenwi’n awtomatig i gyd-fynd â maint braslun y prosiect.  Os ydy maint gwirioneddol y prosiect yn llai na maint y braslun, gallwch nodi hynny yn y blwch.  Er enghraifft, os ydych yn dewis gât fel Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol, bydd hynny’n lleihau hyd y prosiect.

Ni chewch nodi swm mwy na Maint y Braslun.  Os ydych am gynyddu maint y Prif Waith Cyfalaf, bydd yn rhaid ichi ei ail-lunio ar Fap y Prosiect.  Ni chewch nodi unrhyw beth mwy na llai na’r Mwyaf neu’r Lleiaf a ganiateir yn y blwch Maint Gwirioneddol.



Yn ôl i’r Cynnwys

**Y Lleiaf a’r Mwyaf:** Bydd hwn yn dangos y lleiaf a’r mwyaf a ganiateir ar gyfer y Prif Waith Cyfalaf rydych yn ei fraslunio.

### Prosiect Prif Waith Cyfalaf

I gael gwybod pa Waith Cyfalaf Ategol sy’n cyd-fynd â phob Prif Waith Cyfalaf ar sgrin Manylion y Prosiect, gweler Grantiau Bach Glastir - Canllaw Technegol Gwaith Cyfalaf Carbon.

### Prif Waith Cyfalaf

Dyma’r prosiect rydych wedi’i ddewis ac wedi’i fraslunio yn y Datganiad o Ddiddordeb.

Bydd y Maint Gwirioneddol yn cael ei roi yn hwn ar eich rhan.  Os byddwch yn ei newid, cliciwch ar y botwm ‘Safio’ i ddiweddaru’r manylion.

**Prif Waith Cyfalaf**

| Disgrifiad | | Nifer | | Isafswm | Uchafswm | Cyfradd Dalu | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 900 | Plannu Perth/Gwrych Newydd | 163 | m | 10.00 m | | £4.50 | £0.00 |

**Cyfradd Dalu a Gwerth:** Caiff gwerth y Prif Waith Cyfalaf ei gyfrif trwy luosi’r Nifer â’r Gyfradd Dalu. Caiff ei ddangos ar y sgrin.

### Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol

Bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn â’r Prif Waith Cyfalaf a bydd ei angen i gwblhau’ch prosiect.

Mae’r cyfarwyddiadau yn y blychau glas yno i’ch helpu i lenwi’r Datganiad Diddordeb yn gywir.  Gellid gwrthod prosiectau sydd ddim yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn.

**Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol**


| | Disgrifiad | Nifer | | Isafswm | Uchafswm | Cyfradd Dalu | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaid ichi ddewis o leiaf un o’r 2 opsiwn canlynol | | | | | | | |
| Bydd hyd y ffens a nodir isod yn gorfod bod yn ddigon hir i amddyffyn y Berth/Gwrych cyfan ym Mhrosiect y Prif Waith Cyfalaf. Dylid gosod ffens bob ochr i’r berth oni bai bod y berth yn ffinio â’r ffordd. | | | | | | | |
| 594 | Ffens postyn a weiren | | m | | | £2.77 | £0.00 |
| 595 | Ffens postyn a weiar gyda netin stoc | | m | | | £3.48 | £0.00 |

Rhaid nodi nifer ar gyfer y Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol.  Fyddwch chi ddim yn cael cyflwyno’r prosiect o  beidio â gwneud.  Bydd neges gwall goch yn ymddangos ar dop y dudalen, gan ddangos ichi ble mae’r rhan nad ydych wedi’i llenwi.  Gweler Gwallau

## Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol

Fel mae’r teitl yn ei awgrymu, eitemau o waith cyfalaf opsiynol yw’r rhain, y gallwch ddewis eu cynnal i gyd-fynd â’ch Prif Waith Cyfalaf a Gwaith Cyfalaf Gorfodol. Bydd nifer ohonyn nhw sy’n gysylltiedig â’ch Prif Waith Cyfalaf, ar gael ichi eu dewis.

Os hoffech ddewis Gwaith Cyfalaf Opsiynol, nodwch nifer wrth yr eitem rydych wedi’i dewis. Bydd y gyfradd dalu a’i gwerth yn ymddangos ar ôl ichi safio’r prosiect.



### Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol

| | Disgrifiad | Nifer | | Isafswm | Uchafswm | Cyfradd Dalu | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 514 | Camfa ysgol | | | | | £107.00 | £0.00 |
| 516 | Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren | | | | | £151.44 | £0.00 |
| 517 | Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | | | | | £181.00 | £0.00 |
| 519 | Camfeydd pren | | | | | £60.00 | £0.00 |
| 533 | Gât mochyn daear | | | | | £67.00 | £0.00 |
| 563 | Pibelli cyflenwi dŵr | | m | | | £0.52 | £0.00 |
| 573 | Gât ddŵr | | | | | £100.00 | £0.00 |
| 574 | Cafnau dŵr | | | | | £118.00 | £0.00 |
| 596 | Ffensys cwningod | | m | | | £5.40 | £0.00 |
| 599 | Gatiau caeau - pren caled | | | | | £236.00 | £0.00 |
| 600 | Gatiau caeau - pren meddal | | | | | £150.00 | £0.00 |

Pwysig: Y gyfradd dalu ar gyfer clirio Mieri a Phrysgwydd yw £0.0185 y m2 ac nid £0.02 y m2. Peidiwch â nodi arwynebedd sy’n fwy nag arwynebedd gwirioneddol y Prif Waith Cyfalaf

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 905 | Rheoli mieri / prysg - chwistrellydd cefn | | m2 | | | £0.02 | £0.00 |


Dileu Prosiect | Rhestr Prosiectau | Safio | Ymlaen i gyflwyno

## Prosiect Prif Waith Cyfalaf – Coed a Llwyni

Bydd hwn yn dangos sut i lenwi Manylion Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni – 610, 611, 612, 645, 646.

I gael gwybod pa Waith Cyfalaf Ategol sy'n cyd-fynd â phob Prif Waith Cyfalaf ar sgrin Manylion y Prosiect, gweler Grantiau Bach Glastir - Canllaw Technegol Gwaith Cyfalaf Carbon.

### Prif Waith Cyfalaf





**Y Lleiaf a'r Mwyaf:** Bydd y nifer mwyaf a lleiaf o Goed a Llwyni a ganiateir yn seiliedig ar arwynebedd yr amlinell rydych wedi'i thynnu ar Fap y Prosiect. Gweler y tabl yn y bennod Tynnu amlinell Prosiect Prif Waith Cyfalaf Coed a Llwyni .

**Cyfradd Dalu a Gwerth:** Caiff gwerth y Prif Waith Cyfalaf ei gyfrif trwy luosi'r Nifer â'r Gyfradd Dalu. Caiff ei ddangos ar y sgrin.

### Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol

Bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn â'r Prif Waith Cyfalaf a bydd ei angen i gwblhau'ch prosiect.

.




Rhaid nodi nifer ar gyfer y Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol. Fyddwch chi ddim yn cael cyflwyno'r prosiect o beidio â gwneud. Bydd neges gwall goch yn ymddangos ar dop y dudalen, gan ddangos ichi ble mae'r rhan nad ydych wedi'i llenwi. Gweler Gwallau

**Ffensio ar gyfer 611 – Coed a Llwyni – Trawsblannu:**

Mae codi ffens o gwmpas y tir dan sylw yn Waith Cyfalaf Ategol Gorfodol ar gyfer Trawsblannu Coed a Llwyni. I weld faint o ffens sydd ei hangen arnoch, agorwch Fap eich Prosiect gan ddefnyddio'r botwm Gweld Map y Prosiect.

Gan ddefnyddio'r teclyn 'Dewis', cliciwch ar arwynebedd braslun y prosiect. Mae'r hyd yn cael ei ddangos yn y blwch Eitem wedi'i Dewis ar y sgrin.

Nodwch yr hyd hwn yn y nifer ar gyfer eich Gwaith Cyfalaf Ategol Gorfodol.



## Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol

Fel mae'r teitl yn ei awgrymu, eitemau o Waith Cyfalaf Opsiynol yw'r rhain, y gallwch ddewis eu cynnal i gyd-fynd â'ch Prif Waith Cyfalaf a Gwaith Cyfalaf Gorfodol. Bydd nifer ohonyn nhw sy'n gysylltiedig â'ch Prif Waith Cyfalaf, ar gael ichi eu dewis.

Os hoffech ddewis gwaith cyfalaf opsiynol, nodwch nifer wrth yr eitem rydych wedi'i dewis. Bydd y gyfradd dalu a'i gwerth yn ymddangos ar ôl ichi safio'r prosiect.

### Gwaith Cyfalaf Ategol Opsiynol

| | Disgrifiad | Nifer | | Isafswm | Uchafswm | Cyfradd Dalu | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 514 | Camfa ysgol | | | | | £107.00 | £0.00 |
| 516 | Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren | | | | | £151.44 | £0.00 |
| 517 | Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | | | | | £181.00 | £0.00 |
| 519 | Camfeydd pren | | | | | £60.00 | £0.00 |
| 533 | Gât mochyn daear | | | | | £67.00 | £0.00 |
| 563 | Pibelli cyflenwi dŵr | | m | | | £0.52 | £0.00 |
| 573 | Gât ddŵr | | | | | £100.00 | £0.00 |
| 574 | Cafnau dŵr | | | | | £118.00 | £0.00 |
| 593 | Ffens postyn a rheilen | | m | | | £10.40 | £0.00 |
| 596 | Ffensys cwningod | | m | | | £5.40 | £0.00 |
| 599 | Gatiau caeau - pren caled | | | | | £236.00 | £0.00 |
| 600 | Gatiau caeau - pren meddal | | | | | £150.00 | £0.00 |
| 604 | Giardiau rhag stoc ar goed parcdir | | | | | £40.00 | £0.00 |
| Pwysig: Y gyfradd dalu ar gyfer clirio Mieri a Phrysgwydd yw £0.0185 y m2 ac nid £0.02 y m2. Peidiwch â nodi arwynebedd sy'n fwy nag arwynebedd gwirioneddol y Prif Waith Cyfalaf | | | | | | | |
| 905 | Rheoli mieri / prysg - chwistrellydd cefn | | m2 | | | £0.02 | £0.00 |

Dileu Prosiect | Rhestr Prosiectau | Safio | Ymlaen i gyflwyno

## Rheoli Mieri a Phrysgwydd

Y gyfradd dalu ar gyfer clirio Meri a Phrysgwydd yw £0.0185 y $m^2$ ac nid £0.02 y $m^2$. Os caiff eich prosiect ei ddewis, cyfrifir y newid hwn pan gynigir contract ichi.

I gyfri'r gwahaniaeth, defnyddiwch y swm isod.
Arwynebedd ($m^2$) x 0.02 = Gwerth y Datganiad o Ddiddordeb
Arwynebedd ($m^2$) x 0.0185 = Gwerth Newydd


Enghraifft
500m2 x £0.02 = £10
500m2 x £0.0185 = £9.25

Y £9.25 ac nid y swm o £10 a ddangosir yn eich Datganiad o Ddiddordeb fydd yn cael ei nodi yn eich contract Grantiau Bach Glastir.

 Yn ôl i'r Cynnwys

## Gwallau

Os gwelwn gamgymeriadau neu fod gwybodaeth ar goll, bydd neges gwall yn ymddangos ar dop sgrin Manylion y Prosiect.  Bydd angen ichi glirio'r gwallau hyn cyn y cewch chi gyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb.




## Safio a diweddaru'ch prosiect

Ar ôl ichi nodi'r manylion y gofynnir amdanynt, cliciwch y botwm 

ar waelod y sgrin. Bydd hwn yn diweddaru tudalen Manylion y Prosiect gydag unrhyw newidiadau rydych wedi'u gwneud ac yn dangos unrhyw wallau sy'n bod.

Bydd angen ichi glicio'r botwm 

i ddiweddaru'r dudalen bob tro y byddwch yn newid rhywbeth.  Bydd hyn yn gyfle ichi weld senarios gwahanol ar gyfer y Gwaith Cyfalaf Ategol.

## Dileu'ch Prosiect

Os ydych am ddileu'r prosiect, cliciwch ar y botwm 


. Byddwn yn gofyn ichi a ydych chi'n siŵr eich bod am ei ddileu.

## Yn ôl i'r dudalen Prosiectau

Os ydych am adolygu'ch prosiectau cyn bwrw ymlaen, cliciwch ar y botwm


.

## Yn barod i gyflwyno'ch Prosiect?


Os ydych yn barod i gyflwyno'ch prosiect, cliciwch ar y botwm 

ichi gael mynd i'r dudalen gyflwyno.

## Adolygu a newid prosiectau drafft


Fe welwch y prosiectau rydych wedi'u creu ar y dudalen Prosiectau; rydym wedi rhestru'ch holl brosiectau.







## Cyflwyno'ch Prosiect

Bydd angen ichi ddarllen manylion y tudalennau cyflwyno i sicrhau'u bod yn gywir.




Dylech ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau'n ofalus iawn. Ticiwch y blwch i gadarnhau'ch bod wedi'u darllen a'u deall ac yna clicio ar 'Cyflwyno'.






Ar ôl cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb, caiff cadarnhad ei anfon atoch a gallwch ei brintio ar gyfer eich ffeiliau.

## Ar ôl ei gyflwyno'n llwyddiannus

Caiff crynodeb o'ch Prosiect Grantiau Bach Glastir ei ychwanegu at y dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl "Dogfennau sydd wedi'u derbyn gan yr RPW". Darllenwch yr wybodaeth yn drylwyr. Os oes gwybodaeth anghywir, atebwch y Neges gan esbonio'ch gofidiau. Gwnewch hynny cyn gynted ag y gwelwch fod gwybodaeth yn anghywir.

**Tynnu'ch Cais yn ôl**

Os ydych am dynnu'ch Datganiad o Ddiddordeb yn ôl ar ôl ichi ei gyflwyno ar-lein, ewch i'ch tudalen 'Negeseuon'. Dewiswch y neges a gawsoch pan gyflwynoch chi'ch Datganiad Diddordeb Grantiau Bach Glastir. Atebwch y neges hon, yn gofyn am gael tynnu'r Datganiad yn ôl (gan atodi unrhyw wybodaeth berthnasol) er mwyn i'r cais allu cael ei reoli o dan un Cyfeirnod Neges.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004


Yn ôl i'r Cynnwys